Estyn
Y Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Y Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Cyd-Arolygiad o Dimau Troseddwyr Ifanc Cymru a Lloegr

Adroddiad Ail-arolygiad ar: Dîm Troseddwyr Ifanc Sir Benfro

ISBN: 978-1-84099-179-6 Ebrill 2009

Rhagair

Archwiliwyd TTI Sir Benfro yn 2007 yn ystod pedwerydd cam y rhaglen arolygu a chanfuwyd nad oedd yn cyflawni'r gofynion sylfaenol yn ymron bob un o'r meysydd a bod llawer o ddiffygion pwysig. Yn ystod y cyfnod hwn, bu farw rheolwr y TTI yn sydyn a phenodwyd rheolwr newydd ym mis Hydref 2008. Er gwaethaf hyn, canfuom yn ystod ein hail-arolygiad ym mis Rhagfyr 2008 y gwnaed cynnydd sylweddol.

Yr oedd datblygiad penodol wedi digwydd o ran trefniadaeth y Bwrdd Rheoli a'r cyfeiriad strategol a roddid ganddo. Yr oedd trefniadau staffio a rheoli'r TTI wedi cynyddu a sefydlwyd systemau rheoli cadarn o ran gweithredu a pherfformiad. Yr oedd asesiadau a chynllunio ymyriadau wedi gwella o ran eu hansawdd a'u cysondeb; yr oedd cynnydd yn cael ei wneud hefyd yng nghyswllt cwrdd ag anghenion amrywiaeth. Yr oedd cynlluniau strategol bellach yn eu lle i fynd i'r afael â materion llety. Yr oedd ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu wedi gwella, ond yr oedd angen gwaith pellach ar reoli Risg o Niwed a diogelu a datblygu polisïau a gweithdrefnau.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Mawrth 2009

Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Rhagfyr 2008.

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff y Tîm Troseddwyr Ifanc, i aelodau'r Bwrdd ac i'r sefydliadau partner am eu cymorth yn sicrhau bod yr arolygiad hwn yn mynd rhagddo'n hwylus.

Prif Arolygydd	*Sheila Booth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Ann Bateman Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Betsan O'Connor Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Dan Parks Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Iolo Madoc-Jones Arolygiaeth Prawf EM*
Staff Cymorth	*Andrew Doyle*
Tîm Cyhoeddiadau	*Jean Hartington, Alex Pentecost*
Rheolwr y Rhaglen	*Julie Fox, Arolygiaeth Prawf EM*

Cynnwys

	Tudalen
Y camau nesaf	3
Geirfa	4
Crynodeb	5
ARGYMHELLION – I'w gweithredu gan:	7
Gadeirydd y Bwrdd Rheoli	7
Y Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI	12
Rheolwr y TTI	18
Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol	24
Atodiad 2: Data'r Arolygiad	25
Atodiad 3: Trefniadau cyd-arolygiad	27
Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r cod ymarfer	27

Y camau nesaf

Cyflwynir yr adroddiad i'r Arglwydd Ganghellor, fel yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, a'r Ysgrifenyddion Addysg ac Iechyd, gyda chopïau yr un pryd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Anfonir copi at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Hefyd darperir copïau i'r wasg ac ar wefan Gwasanaeth Prawf EM ar:

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation

Geirfa

Asset	Arf asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
RhDB	Rheolwr Datblygu Busnes
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc
Carefirst	System Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol
Careworks	System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc
SCT	Swyddfa Cofnodion Troseddol
PDC	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
GCH	Gorchymyn Cadw dan glo a hyfforddi
EOTAS	Addysg y Tu Allan i Leoliad Ysgol
Estyn	Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru
CHA	Cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg
A Carchardai EM	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
A Prawf EM	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
RhGAD (ISSP)	Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys
DPA	Dangosydd Perfformiad Allweddol
ToA	Tebygrwydd o Aildroseddu
BLlDP	Bwrdd Lleol Diogelu Plant
MAPPA	Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth
SGR	System Gwybodaeth Reoli
NACRO	Cymdeithas Cenedlaethol Gofalu am Droseddwyr a'u Hailsefydlu
Safonau cenedlaethol	Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
NEET	Ddim mewn Gwaith, Addysg na Hyfforddiant
Onset	Arf y BCI ar gyfer asesu plant a phobl ifanc y mae risg iddynt droseddu
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
ACD	Adroddiad Cyn-dedfrydu
RN	Risg o Niwed
RND	Risg o Niwed Difrifol
UYGC	Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol
PCCI	Panel Cefnogi Cynnwys Ieuenctid
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
TTI	Tîm Troseddwyr Ifanc

Crynodeb

Gwaith yn y llysoedd

- Parhaodd y TTI i ddarparu gwasanaeth da i'r llys a hyrwyddo a gwneud darpariaeth ar gyfer pecynnau cefnogi/goruchwylio mechnïaeth. Yr oedd trafferthion yn parhau o ran y llys yn hysbysu'r TTI ymlaen llaw o achosion posibl o remand diogel neu dan glo.
- Yr oedd ansawdd ACD wedi gwella ac yr oedd proses 'borthora' drwyadl bellach yn ei lle. Roedd angen rhagor o waith i sicrhau bod pob adroddiad yn cyrraedd y safon ofynnol ac yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni'r safon genedlaethol.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Yr oedd safonau asesu a chynllunio ymyriadau'n dangos fod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud, er bod angen rhoi mwy o sylw i asesu a rheoli RN. Roedd y staff yn llawer mwy ymwybodol o anghenion amrywiaeth. Yr oedd nifer o asesiadau na chawsant eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol ac nid oedd adolygiadau'n cael eu cynnal yn gyson o hyd. Yr oedd staff y TTI yn rhoi sylw i faterion diogelu, ond yr oedd yr ymateb o Ofal Plant yn dangos fod angen mwy o waith ar adeiladu perthnasoedd. Yr oedd angen datblygu ymhellach y protocol rhwng y TTI a Gofal Plant.
- Yr oedd rhybuddion terfynol yn cael eu cyflwyno'n unol â safonau cenedlaethol, ond nid oedd Paneli Troseddwyr Ifanc yn cwrdd â'r amserlenni gofynnol.
- Yr oedd gofynion addysg plant a phobl ifanc wedi cael eu hatgyfnerthu ac yr oedd y gofynion iechyd yn derbyn sylw rhagweithiol.
- Yr oedd anghenion llety'n derbyn sylw mwy strategol ac yr oedd cynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer datblygu, ond yr oedd nifer fechan o blant a phobl ifanc yn parhau i fod mewn llety anfoddhaol.
- Yr oedd y cydymffurfio â safonau cenedlaethol wedi gwella, ond yr angen gwaith ychwanegol o hyd mewn sawl maes.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo

- Yr oedd ansawdd asesiadau Asset a chynllunio ymyriadau'n foddhaol, ond yr oedd angen sylw ar asesiadau RN, ac felly hefyd adolygiadau.
- Yr oedd addysg a hyfforddiant ôl-16 i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfryd yn dangos gwelliant sylweddol, er y cafwyd siom fod parhad cynlluniau dysgu'n gyfyngedig iawn a dim ailasesiad o lythrennedd.
- Ychydig o newid a fu o ran cwrdd ag anghenion corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, ond gwelwyd cynnydd bychan o ran rhoi sylw i anghenion camddefnyddio sylweddau.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Nid oedd y maes hwn yn derbyn sylw'r ail-arolygiad, ond nodwyd fod gwybodaeth am ddioddefwyr yn cael ei chynnwys mewn mwy o ACD.

Trefniadau rheoli a phartneriaeth

- Yr oedd y Bwrdd Rheoli wedi ailystyried ei aelodaeth a gwnaed ychwanegiadau priodol. Adolygwyd y cylch gorchwyl. Yr oedd presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi cynyddu i dros 80%. Yr oeddid wedi ailedrych ar gyfraniadau gan bartneriaid, a'u gwella. Yr oedd y Bwrdd yn darparu cyfeiriad strategol ac yn ymwneud yn frwd â monitro rheoli perfformiad, sicrwydd ansawdd a chraffu ar y gyllideb.
- Yr oedd y TTI yn cael ei ystyried yn chwaraewr strategol allweddol ac roedd cysylltiadau priodol â chynlluniau plant a diogelwch cymunedol partneriaid ac eraill. Yn ogystal ag â'r prosesau corfforaethol a gwleidyddol.
- Yr oedd y TTI wedi'i ad-drefnu gan gynyddu capasiti rheoli. Yr oedd ei lefelau staffio wedi'u gwella'n sylweddol a chyflwynwyd systemau rheoli o ran dyraniadau a llwyth gwaith. Yr oedd adolygiadau goruchwylio a pherfformiad yn cael eu cynnal ac yr oedd staff wedi cael mynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddi. Yr oedd archwiliadau SCT cyfredol yn eu lle ar gyfer yr holl staff a phartneriaid perthnasol.
- Nid oedd arweiniad ar bolisi, gweithdrefnau ac ymarfer da ar gyfer staff y TTI wedi'i gwblhau eto.

ARGYMHELLION – I'w gweithredu gan:

Gadeirydd y Bwrdd Rheoli

Argymhelliad 1

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod gan y Bwrdd Rheoli aelodaeth briodol, fod ganddo gylch gorchwyl sy'n pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau pob un o'i aelodau, a bod partneriaid statudol yn cyfrannu i'r TTI yn unol â dogfen y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, *Cynnal y Llwyddiant (Sustaining the Success).*

1.1 Adolygwyd aelodaeth y Bwrdd Rheoli a chynyddwyd yr aelodaeth yn briodol i gynnwys Pennaeth Gwasanaeth Comisiynu Gofal Plant (sydd bellach yn rheolwr llinell i reolwr y TTI) Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Phennaeth y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad.

1.2 Yr oedd y Bwrdd wedi adolygu ei gylch gorchwyl a chyflwynwyd pecyn cynefino a chyfarwyddyd ymarfer. Derbyniodd aelodau newydd hyfforddiant cynefino a ddarparwyd gan RhDB, a dywedwyd ei fod yn gadarnhaol. Yr oedd y cynefino hwn yn egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau ac yn edrych ar gefndir sefydlu'r Timau Troseddwyr Ifanc a'r ystod o waith a wneid ganddynt.

1.3 Yr oedd aelodau'r Bwrdd yn llawer mwy ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ac yn ymroddedig i'r broses. Yr oedd presenoldeb mewn cyfarfodydd dros 80%. Dywedodd yr aelodau eu bod yn *"teimlo fel tîm cydlynol"* a'i bod *"bellach yn werth dod i'r cyfarfodydd".* Yr oedd gwaith yn digwydd rhwng cyfarfodydd hefyd. Edrychid ar y TTI fel chwaraewr strategol allweddol gan fudiadau partner.

1.4 Adolygwyd cyfraniadau gan bartneriaid ac yr oedd nifer, yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, addysg a phrawf, wedi cynyddu eu cyfraniad ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan y TTI.

1.5 Yr oedd adroddiadau rheolaidd ar weithredu'r cynllun adfer yn cael eu rhoi i reolwyr corfforaethol a'r cabinet. Yr oedd y pwyllgor craffu'n edrych ar waith y TTI fel rhan o'i raglen waith.

1.6 Er nad oedd unrhyw faterion heb eu datrys i roi sylw iddynt o ran yr argymhelliad hwn, y mae'n hanfodol cynnal ymrwymiad aelodau'r Bwrdd a diddordeb corfforaethol a gwleidyddol ehangach er mwyn sicrhau gwelliant a datblygiad parhaus y TTI. O ystyried y newidiadau a ragwelir yn nhrefniadaeth gwasanaethau iechyd yng Nghymru a disgwylir yn 2009, bydd angen cadw swyddogaeth iechyd dan adolygiad hefyd yn ogystal â'i gyfraniad fel asiantaeth bartner.

Argymhelliad 2
Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau bod y Bwrdd Rheoli yn cymryd rhan fwy gweithredol yn y canlynol: (i) datblygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid a'i roi ar waith (ii) monitro cywirdeb a phrydlondeb yr wybodaeth ynghylch perfformiad ac ansawdd y gwaith a gyflawnir (iii) datblygu cyllidebau a chraffu arnynt.

2.1 Yr oedd cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli'n cael eu rheoli'r briodol erbyn hyn, gydag aelodau'n derbyn gwybodaeth ymlaen llaw a chofnodion prydlon a chywir wedyn.

2.2 Yr oedd y Bwrdd wedi ymwneud llawer â'r cynllun adfer, yr oedd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac wedi cael nifer o gyflwyniadau gan gynrychiolydd y BCI, a oedd yn monitro cynnydd y TTI. Bu aelodau'r Bwrdd yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid. Yr oedd rheolwr y TTI wedi cyflwyno rhestr o themâu i'w cynnwys ac edrychodd y Bwrdd ar y materion hyn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynnwys y cynllun. Cafodd y fersiwn drafft ei gylchredeg i bob aelod o'r Bwrdd am sylwadau fel rhan o broses ymgynghori pythefnos o hyd. Cynhwyswyd yr ymatebion yn ôl yr angen. Cymeradwywyd y cynllun gan aelodau'r Bwrdd. Yr oedd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd yn cofnodi lefel dda o drafodaeth a chyfranogaeth gan bob aelod.

2.3 Yr oedd y wybodaeth ofynnol ar berfformiad yn cael ei chasglu mewn dull systematig, yr oedd wedi'i gwirio ac yn amserol. Yr oedd gweithdrefnau penodol ar waith o ran monitro ac adrodd. Yr oedd adroddiadau misol yn cael eu paratoi ar gyfer y rheolwr llinell i fonitro'r llwyth gwaith a pherfformiad ar waith achosion, a'r nifer a'r mathau o orchmynion a oedd yn eu lle ar gyfer y cyfnod hwnnw.

2.4 Yr oedd aelod o'r adain polisi corfforaethol wedi'i aseinio i gefnogi'r broses ddadansoddi ac adrodd. Yr oedd map proses newydd wedi'i datblygu a'i roi ar waith ar gyfer casglu, monitro ac adrodd ar DPA, gan sicrhau fod ansawdd y gwaith wedi'i gyflawni a'i gynnal. Yr oedd adrodd yn fisol ar DPA hefyd wedi dechrau mewn meysydd penodol e.e. cyfiawnder adferol, rhybuddion terfynol, gorchmynion cyfeirio a chamddefnyddio sylweddau. Yr oedd y RhDB yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Perfformiad ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Thai ac yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd hwn yn chwarterol.

2.5 Yr oedd gwybodaeth am CHA plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r TTI yn cael ei choladu'n effeithiol ac wedi arwain at DPA a oedd yn well ac yn fwy cywir. Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, yr oedd gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith ac yr oedd y ddarpariaeth a atgyfnerthwyd wedi golygu y cwrddwyd â phob targed.

2.6 Rhoddwyd gwybodaeth ar berfformiad i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod. Yr oedd pob adroddiad perfformiad yn cynnwys naratif a oedd yn egluro'r cyd-destun, dehongliad ac unrhyw faterion allweddol eraill, yr ystyrid ei bod yn cael effaith ar berfformiad mewn meysydd penodol. Yr oedd aelodau'r Bwrdd yn gwybod llawer mwy o wybodaeth ar berfformiad ac yn cwestiynu a herio'n briodol.

2.7 Heb amheuaeth, canolbwyntiwyd ar wella DPA a chydymffurfio â safonau cenedlaethol er mwyn cyflawni llinell sylfaen perfformiad. Fodd bynnag, yr oedd y canolbwyntio cul hwn wedi'i gydnabod ac yr oedd agenda pellach yn datblygu a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau mewn meysydd gwasanaeth penodol gyda llety diogel, magu plant a CHA yn derbyn sylw ar hyn o bryd. Y maes arfaethedig nesaf i graffu arno fyddai iechyd, yn enwedig iechyd emosiynol.

2.8 Yr oedd cyllid yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd ac yr oeddid yn craffu'n llawer mwy trwyadl ar gyllidebau. Yr oedd rheolwr llinell y TTI yn gwneud cais am adroddiadau blynyddol gan y RhDB ar feysydd penodol gan gynnwys gwybodaeth ariannol.

2.9 Yr oedd Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o'r systemau rheolaeth ariannol ar gyfer y TTI ac wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar y gwelliant o ran rheolaeth ariannol yn nhermau prosesau a rheoli, a swyddogaeth y RhDB o ran cymryd cyfrifoldeb dros lawer o'r swyddogaeth gweinyddu ariannol a monitro a oedd yn cael ei darparu gan Bennaeth Comisiynu Gofal Plant.

2.10 Cwrddwyd â'r argymhelliad hwn, er bod y TTI ac aelodau'r Bwrdd ac Archwilio Mewnol yn cydnabod fo angen i waith barhau yn enwedig o ran craffu ar gyllidebau a rheoli perfformiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Argymhelliad 3

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli sicrhau fod strwythur, trefniadaeth a rheolaeth y TTI yn cynnwys enghreifftiau priodol ac effeithiol o'r canlynol:

(i) lefelau staffio a chymwysterau, profiad a sgiliau'r staff

(ii) arferion dyrannu a dulliau rheoli baich gwaith

(iii) goruchwylio, gwerthuso a hyfforddi

(iv) capasiti rheolaethol.

3.1 Cynhaliwyd adolygiad llawn ac ar frys o lefelau staffio yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Drwy ddarparu gwybodaeth fanwl a chywir am berfformiad a dadansoddiad o'r baich gwaith, bu modd gwneud achos busnes cadarn dros staffio ychwanegol. Y penodiad cyntaf oedd y RhDB a gychwynnodd yn ei swydd ym mis Hydref 2007. Dechreuodd dau weithiwr cymdeithasol ychwanegol llawn amser ar eu gwaith ym misoedd Ebrill a Mai 2008. Adeg yr ail-arolygiad yr oedd gweithiwr cymdeithasol ar secondiad dros dro hefyd.

Penodwyd UYGC ychwanegol gyda chyfrifoldeb penodol dros atal, ym Mehefin 2008. Ariannwyd yr holl swyddi hyn gan yr awdurdod lleol drwy'r gyllideb Gofal Cymdeithasol.

3.2 Yr oedd y Gwasanaeth Prawf wedi cynyddu ei gyfraniad o hanner swyddog i un swyddog llawn-amser. Yr oedd Addysg wedi penodi un uwch athro llawn-amser o fis Ionawr 2008. Dechreuodd swyddog anghenion iechyd emosiynol, a ariannwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, ym mis Ionawr 2008. Yn anffodus, bu'r swydd hon yn wag ers mis Gorffennaf 2008. Yr oedd wedi'i hysbysebu ac yr oedd cyfweliadau i'w cynnal yn fuan.

3.3 Yr oedd y staff ac aelodau'r Bwrdd yn credu fod gan y TTI bellach lefel mwy priodol o staffio gydag ystod briodol o gymwysterau, profiad a sgiliau, ond yr oeddynt hefyd yn cydnabod fod angen cadw hyn dan adolygiad.

3.4 Cytunwyd ar brotocol dyrannu ar gyfer pob cyfeiriad i'r TTI. Yr oedd yr Uwch Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob un o'r timau'n gyfrifol am ddyrannu achosion ar sail barhaus. Ystyriwyd beichiau gwaith presennol a'r oriau gwaith dan gontract fel rhan o'r broses hon. Roedd rheoli beichiau achosion yn mynd rhagddo drwy oruchwyliaeth fisol ac yn cael ei gofnodi ar Systemau Gwybodaeth Rheoli Careworks adeg y drafodaeth. Yr oedd argraffiad wythnosol o'r baich achosion cyfredol yn cael ei gyflwyno i'r UYGC a'r RhDB bob dydd Llun i'w ddadansoddi, a oedd yn ei dro'n cefnogi'r broses ddyrannu.

3.5 Wrth gael eu cyfweld, dywedodd y staff y bu gostyngiad o ran baich gwaith yn ddiweddar, a dywedwyd, pan fyddai achosion yn cael eu dyrannu fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i allu, diddordeb, sgiliau penodol a phrofiad staff yn ogystal ag unrhyw faterion rhyw ac iaith. Bellach yr oedd dau berson yn y tîm a allai siarad Cymraeg.

3.6 Mabwysiadwyd y polisi Gofal Cymdeithasol ar oruchwylio ac adolygu perfformiad yn ffurfiol ym mis Ionawr 2008. Yr oedd gan bob aelod o'r tîm oruchwylydd wedi'i bennu ar ei gyfer, ac yr oedd y rhan fwyaf o staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Dim ond un o'r wyth rheolwr achos a gyfwelwyd a ddywedodd eu bod yn cael eu goruchwylio lai nag unwaith y mis neu unwaith bob chwe wythnos. Dangosodd dadansoddiad o gofnodion goruchwylio'r holl staff o Ionawr 2008 eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth o leiaf unwaith bob deufis a nifer o staff fwy nag unwaith y mis; yr oedd hyn yn cynnwys staff rhan-amser a staff a oedd wedi'u secondio.

3.7 Yr oedd trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch gwaith achos yn cael eu cofnodi ar Careworks a datblygwyd rhestr wirio i sicrhau yr edrychid hefyd ar faterion ansawdd. Yr oedd manylion goruchwylio'n cael eu hadrodd i'r RhDB yn fisol ac adborth yn cael ei ddarparu i'r rheolwr llinell yn chwarterol.

3.8 Yr oedd gan bob aelod o'r tîm fis wedi'i nodi yn ystod 2008 ar gyfer cyfarfod adolygu perfformiad ac yr oeddynt wedi'u cwblhau gyda thros dri chwarter y staff.

3.9 Er bod y staff yn croesawu'r oruchwyliaeth a dderbynient ar achosion, ac yn ei chael yn ddefnyddiol, yr oeddent eisiau mwy o bwyslais ar gefnogi a datblygu. Yr oedd y rheolwyr wedi cydnabod hyn gan ddweud y byddid yn ailedrych ar y strwythur goruchwylio i sicrhau fod cydbwysedd rhwng rheoli baich achosion â chefnogi a datblygu rheolwyr achosion.

3.10 Yr oedd cynnydd wedi digwydd o ran hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd yr holl staff y cwrddwyd â'u hanghenion hyfforddi. Yr oedd hyfforddiant yn arwain at gymhwyster proffesiynol yn cynnwys pedwar aelod o staff yn ymgymryd â'u Tystysgrif Broffesiynol mewn Ymarfer Effeithiol, dau aelod o staff yn dilyn Gradd Sylfaen mewn Cyfiawnder Ieuenctid, dau aelod o staff yn dilyn hyfforddiant ar ôl cymhwyso ac un aelod o staff fel asesydd ymarfer.

3.11 Yr oedd yr holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant ar ddiogelu a manylir ar hyn ym mharagraff 4.1. Yr oedd nifer wedi derbyn hyfforddiant ar amrywiaeth, ACD, magu plant yn gadarnhaol a gwaith CAMHS. Yr oedd staff atal perthnasol wedi derbyn hyfforddiant Onset a staff eraill wedi derbyn ystod o hyfforddiant arbenigol gan gynnwys ar yr iaith Gymraeg, esgeulustod, plant a phobl ifanc sy'n cam-drin yn rhywiol, 'Teentalk', asesiadau risg, cymorth cyntaf a chwynion a chanmoliaeth ayb. Yr oedd hyfforddiant ar wella Asset yn digwydd ar sail Dyfed-Powys a'r cynllun oedd cynnal hyfforddiant dechrau'r gwanwyn 2009 ar RN, RND ac ar sgiliau asesu.

3.12 Yr oedd lefelau rheoli wedi'u cynyddu yn y TTI gan sefydlu tri thîm. Yr oedd y tîm gorchmynion statudol a'r tîm atal yn cael eu rheoli gan Uwch Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol a oedd yn goruchwylio'u gwaith. Yr oedd y RhDB yn gyfrifol am reoli perfformiad ac ansawdd, staff cefnogi busnes, y cydlynydd gorchmynion cyfeirio a'r swyddog cyswllt â dioddefwyr. Yr oedd gan reolwr y TTI gyfrifoldeb strategol ac yr oedd hefyd yn rheolwr llinell i'r tri arweinydd tîm a nifer o'r staff a secondiwyd. Yr oedd hi, yn ei thro, yn derbyn rheolaeth llinell gan Bennaeth Gwasanaeth Comisiynu Gofal Plant.

3.13 Yr oedd cyfarfodydd rheoli'r TTI yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y rheolwr llinell yn eu mynychu'n rheolaidd. Yr oedd yr holl staff yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r cyfeiriad yr oeddent yn eu derbyn ganddo ef.

3.14 Roedd yr argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith. Mae'r sefydliad bellach mewn sefyllfa fwy iach o lawer nag yr oedd flwyddyn yn ôl. Mae ganddo fwy o gapasiti, rheolaeth weithredol wedi'i atgyfnerthu a chyda ffocws pendant a systemau newydd yn eu lle. Fodd bynnag, mae rhywfaint o hyn eto i gael ei wreiddio'n llawn yng

ngwaith y TTI. Y mae unrhyw swydd wag, megis y cynghorydd anghenion emosiynol yn golygu fod y gwasanaeth yn parhau'n fregus a bod angen iddo ddatblygu gwydnwch a chynlluniau wrth gefn i roi sylw i'r materion hyn yn y tymor hir. Y mae polisi'r awdurdod o 'ddatblygu eu pobl eu hunain' h.y. cynorthwyo staff i ennill cymwysterau proffesiynol a chynnig lleoliadau i fyfyrwyr, o gymorth i sicrhau parhad y lefelau staffio.

Y Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI

Argymhelliad 4
Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI sicrhau fod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o faterion diogelu ac ymateb yn briodol.

4.1 Yr oedd holl staff y TTI wedi mynychu hanner diwrnod o hyfforddiant ar ddiogelu gyda chydweithwyr o faes Gofal Plant ac yr oedd yn holl reolwyr achosion wedi cwblhau cwrs hyfforddi pum diwrnod, Adran 47. Yr oedd ymron pob aelod o'r tîm wedi derbyn mynediad awdurdodedig at becyn hyfforddi ar-lein amddiffyn plant Lefel 1 ac roedd y RhDB yn monitro cynnydd yn fisol i sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau'r hyfforddiant hwn. Unwaith y cwblhawyd hyfforddiant Lefel 1, byddid yn ceisio trwyddedau Lefel 2 ar gyfer y staff priodol.

4.2 Yr oedd hyfforddiant pellach, gan ddarparwyr allanol, sef rhaglen tri diwrnod ar gyfer ymarferwyr yn seiliedig ar brosesau asesu yn cael ei gynllunio, a fyddai'n cynnwys diogelu a chydweithio.

4.3 Yr oedd gan glerc mewnbynnu data'r TTI fynediad at SGR Carefirst ar gyfer Gofal Plant ac yn gallu casglu data ynghylch plant a phobl ifanc fel rhan o'r broses casglu gwybodaeth. Atgyfnerthwyd cysylltiadau â'r tîm asesu Gofal Plant i sicrhau fod sianelau cyfathrebu'n parhau'n agored wrth sefydlu os oedd plentyn neu unigolyn ifanc yn hysbys i Ofal Plant, neu a fu'n hysbys iddynt. Datblygwyd protocol a map busnes i gynorthwyo gyda'r broses hon.

4.4 Drwy oruchwyliaeth yr oedd pob aelod o staff yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i sicrhau fod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dadansoddiad o ffeiliau achos. Yr oedd cyfarfod rheolaidd y rheolwyr achosion yn darparu fforwm ar gyfer trafod materion diogelu ac ar gyfer cefnogi cymheiriaid ac adolygu.

4.5 Wrth gael eu cyfweld, dangosodd y staff fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion diogelu. Bu i ni ganfod gwelliant sylweddol, ac yr oedd statws Gofal Plant y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gofnodi yn ymron bob un o'r achosion a welwyd. Yr oedd cyswllt hefyd yn digwydd mewn mwy o achosion ac yr oedd llawer mwy o gyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud. Yr oedd y staff yn ystyried materion diogelu mewn ACD wrth gynghori'r dedfrydwyr ar

reolaeth briodol y plant a'r bobl ifanc a oedd yn ymddangos gerbron y llys.

4.6 Yr oedd staff y TTI yn ddiwyd o ran gwneud ail-gyfeiriadau at Ofal Plant pryd y credid fod plant a phobl ifanc yn parhau'n fregus.

4.7 Yr oedd rheolwr y TTI yn aelod o'r BLIDP ac yn cynrychioli rheolwyr TTI Dyfed-Powys ar Grŵp Rheoli Strategol MAPPA Dyfed Powys.

Materion heb eu datrys

4.8 Er bod staff y TTI yn cyflawni'u cyfrifoldebau ac yn gwneud cyfeiriadau, yr oedd yr ymateb a dderbynient gan Ofal Plant yn aml yn anghyson, ac, ar adegau'n annigonol.

4.9 Yr oedd materion bregusrwydd (agored-i-niwed) a diogelu yn cael eu hadnabod a llawer ohonynt yn derbyn sylw, ond nid oedd hynny'n digwydd mewn ffordd systematig a chynlluniedig y gellid ei fonitro a'i adolygu.

4.10 Nid oedd gwiriadau gyda Gofal Plant bob amser mewn perthynas â'r trosedd cyfredol.

Argymhelliad 5
Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI sicrhau bod trefniadau gwaith â gwasanaethau plant yn galluogi staff y TTI i gyflawni'u holl gyfrifoldebau diogelu a bod archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu cynnal bob tair blynedd ar bob aelod o staff a phob asiantaeth statudol a gwirfoddol arall y mae gan blant a phobl ifanc o'r TTI gysylltiad â hwy

5.1 Adolygwyd y protocol gyda Gofal Plant a chanfuwyd sianelau ar gyfer cyfathrebu a chydweithio rhwng timau Gofal Plant a'r TTI. Yr oedd y protocol yn amlinellu'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau staff y TTI a'r rhyngwyneb â'r timau Gofal Plant.

5.2 Yr oedd Pennaeth Gwasanaeth Comisiynu Gofal Plant yn rheolwr llinell i reolwyr Gofal Plant a rheolwr y TTI. Yr oedd yr olaf hefyd yn mynychu cyfarfodydd tîm rheoli Gofal Plant a Chyfarfodydd Rheoli (Cyfarwyddiaeth) First Line. Yr oedd hyn wedi gwella'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau.

5.3 Yr oedd gan yr holl staff a gyflogid neu a oedd wedi'u secondio i'r TTI, staff sesiynol a gwirfoddolwyr archwiliadau SCT cyfredol. Yr oedd y RhDB yn gweithio gyda swyddog personél penodedig o Gyngor Sir Benfro i fonitro pob aelod o'r tîm yng nghyswllt archwiliadau'r SCT.

Materion heb eu datrys

5.4 Er bod y berthynas rhwng y TTI a thimau Gofal Plant yn sylweddol well ar lefel reolaethol, yr oedd anghysondebau o hyd a phroblemau yn y berthynas waith rhwng timau ar lefel gweithwyr

achos. Yr oedd hyn yn cynnwys anghytuno ynghylch trothwyon a phwy oedd yn gyfrifol am wneud cyfeiriadau ym maes diogelu a Phlant mewn Angen.

5.5 Nid oedd y protocol diwygiedig yn cynnwys proses ar gyfer cyfeirio pryderon i lefel uwch ac yr oedd angen i hyn fod yn glir i staff y ddau wasanaeth. Yn y sampl o achosion a archwiliwyd ar gyfer yr adolygiad, cyfeiriwyd tri achos fel 'achosion o bryder' ac yr oedd y rhain yn cynnwys diffyg ymateb prydlon a phriodol gan y gwasanaethau Gofal Plant. Bu staff y TTI yn ddiwyd yn ail-gyfeirio, ond yr oedd angen dyrchafu'r achosion i lefel reolaethol uwch.

Argymhelliad 10

Dylai Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI sicrhau y rhoddir sylw i faterion amrywiaeth ym mhob agwedd ar waith y TTI.

6.1 Yr oedd nifer o staff y TTI wedi derbyn hyfforddiant penodol ar amrywiaeth a ddarparwyd yn allanol. Yr oedd cynlluniau yn eu lle ar gyfer hyfforddiant mewnol pellach yn gynnar yn 2009.

6.2 Yr oedd materion amrywiaeth yn cael eu monitro'r fwy manwl wrth oruchwylio, fel rhan o'r broses o 'borthora' ACD a thrwy raglen sicrwydd ansawdd Asset.

6.3 Roedd hil ac ethnigrwydd wedi'u cofnodi yn yr holl achosion a welwyd.

6.4 Yr oedd materion amrywiaeth, ffactorau a allai fod yn wahaniaethol/anfanteisiol ac unrhyw anghenion unigol eraill wedi'u nodi yn yr holl achosion atal a welwyd a rhoddwyd sylw llawn i'r dulliau mwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc penodol. Yn achos plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac wedi derbyn dedfryd gymunedol, yr oedd materion amrywiaeth wedi'u hasesu yn nhri-chwarter o'r achosion a throsodd, wedi'u nodi yn ymron ddwy ran o dair o'r achosion a sylw wedi'i roi i weithgaredd yn ymron i dri chwarter o'r rhain. Mewn achosion cadw dan glo, rhoddwyd sylw i'r materion posibl ar gam cynnar yn ymron i ddwy ran o dair o'r achosion, eu nodi mewn tri chwarter o'r rhain, ond dim ond mewn traean o'r achosion y rhoddwyd cynlluniau yn eu lle i leihau'r effaith i'r eithaf. Yn gyffredinol, yr oedd hwn yn ddarlun llawer gwell nag a welwyd yn yr arolygiad blaenorol.

6.5 Wrth gael eu cyfweld, siaradai'r staff yn hyderus ynghylch deall ac adnabod materion amrywiaeth.

6.6 Yr oedd gan y TTI ddau aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg ac yr oedd yn gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ymyriadau rhyw benodol.

6.7 Yr oedd y TTI wedi gwneud gwaith cadarn gyda chymuned y sipsiwn/teithwyr. Yr oedd yr anghenion o ran bod ar wahân ac unigedd cymdeithasol yn cael eu cydnabod yn dda ac yr oedd

gwaith da'n cael ei wneud gyda theuluoedd unigol. Yr oedd angen i'r staff fod yn fwy ymwybodol o ddull gweithredu strategol yr awdurdod er mwyn rhoi sylw i'w hallgau cymdeithasol ac economaidd.

Materion heb eu datrys

6.8 Yn yr ACD a archwiliwyd fel rhan o'r ail-arolygiad, yr oedd materion amrywiaeth, ffactorau a allai fod yn wahaniaethol/anfanteisiol ac unrhyw anghenion unigol eraill wedi derbyn sylw yn hanner y sampl.

6.9 Nid oedd materion iaith wedi'u cofnodi'n ddigonol ac ond ychydig o dystiolaeth a welwyd fod plant neu bobl ifanc yn cael cynnig ynghylch pa iaith yr hoffent ei defnyddio.

6.10 Gwelwyd achos yn ymwneud â cheisiwr lloches fel rhan o'r sampl achosion. Yr oedd y TTI wedi adnabod anghenion yr unigolyn ifanc yn hynod dda, ond nid oedd ganddynt y wybodaeth na'r adnoddau i gwrdd â'r anghenion. Er bod sefyllfaoedd o'r fath yn anarferol yn yr ardal hon, dylai'r TTI ystyried datblygu cysylltiadau gydag ardaloedd eraill sydd â'r arbenigedd a'r adnoddau priodol.

Argymhelliad 12

Dylai'r Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI sicrhau bod yr holl waith a wneir gan y TTI yn bodloni'r safonau cenedlaethol ac yn destun proses sicrhau ansawdd

7.1 Bu hwn yn faes o bryder sylweddol ac yr oedd y broses arolygu wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd y safonau cenedlaethol yn cael eu cyrraedd mewn 20 a mwy o feysydd. Hyd nes y penodwyd staff ychwanegol yng ngwanwyn 2008, yr oedd y TTI yn ei chael yn anodd cwrdd â'r safonau yn y gwaith a wnaed ganddynt.

7.2 Yr oedd prosesau monitro bellach yn eu lle, a chyda datblygiad strwythur newydd y tîm, yr oedd modd i'r UYGC fonitro cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol mewn goruchwylio. Yr oedd gan bob rheolwr achos gopi o becyn Cyfarwyddyd y Safonau Cenedlaethol. Dechreuwyd cynnal cyfarfodydd misol i reolwyr achosion ym mis Medi 2008 ac roedd materion yn ymwneud â safonau cenedlaethol yn eitem reolaidd ar yr agenda.

7.3 Gwnaed cynnydd sylweddol o ran dibynadwyedd y wybodaeth a oedd yn cael ei chasglu ar gydymffurfio â safonau cenedlaethol. Yr oedd y RhDB yn goruchwylio'r monitro a'r ddarpariaeth o wybodaeth rheoli perfformiad i ddibenion mewnol ac ar gyfer y BCI. Yr oedd ystadegau'n cae eu monitro'n fisol i asesu perfformiad. Yr oedd hyn yn cynnwys ansawdd y wybodaeth a gynhwyswyd yn System Gwybodaeth Rheoli Careworks. Trafodwyd hyn yng nghyfarfodydd Grŵp Rheoli'r TTI.

7.4 Adroddiadau'r BCI 2007/2008 oedd y rhai diweddaraf ar gael a oedd yn adrodd ar gydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol. Yr oedd y rhain yn dangos fod y TTI yn perfformio ar Lefel 3, gan gyflawni 59.3% o gydymffurfiaeth. Roedd hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Dyfed-Powys a gweddill Cymru. Bellach, ni chesglir y ffigurau hyn ond ar sail flynyddol a rhagwelir y bydd y set nesaf o ffigurau yn dangos gwelliant.

7.5 Gwelwyd cynnydd yn yr achosion a archwiliwyd ac adroddir ar lawer o hyn yn fanwl yn adrannau 10,11 a 12 ar ACD, cwblhau asesiadau ac adolygiadau Onset ac Asset, a chynllunio ymyriadau. Mewn rhybuddion terfynol gwelsom barhad o'r cydymffurfio llawn o fewn 20 diwrnod ar gyfer cyflwyno'r rhybudd yn y nifer fechan o achosion a archwiliwyd.

7.6 Bu cynnydd yn amlder apwyntiadau yn ystod y cyfnod cadw dan glo a'r cyfnod yn y gymuned ar gyfer plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i Orchymyn Cadw Tan Glo a Hyfforddi ac yn y camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio.

7.7 Yr oedd ymyriadau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac yn destun dedfrydau cymunedol yn dangos cynnydd yn nhermau holl agweddau eu hiechyd.

7.8 Dangosodd gwasanaethau CHA ar gyfer yr un grŵp o blant a phobl ifanc welliant sylweddol mewn perthynas â chyfraddau cyfeirio a'r ddarpariaeth o wasanaethau priodol ar draws yr ystod CHA. Yr oedd y sefyllfa o ran CHA ôl-16 i blant a phobl ifanc yng nghyfnod cymunedol eu dedfryd cadw dan glo yn dangos newid cadarnhaol a sylweddol. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf prinder cenedlaethol o ran argaeledd lleoliadau hyfforddi ar gyfer plant a phobl ifanc ôl-16. Yr oedd hyn yn bennaf oherwydd gwaith cadarnhaol yr uwch athro ac ymgysylltiad llawn y TTI â strategaeth NEET.

Materion heb eu datrys

7.9 Nid oedd prydlondeb apwyntiadau cyntaf gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac yn destun dedfrydau cymunedol wedi gwella ac ni wnaed ond ychydig gynnydd yn amlder apwyntiadau wedi hynny. Yr oedd gweithredu cynyddol i sicrhau cydymffurfio â gorchmynion, ond nid camau tor-amodau yn cael eu cymryd yn unol â safonau cenedlaethol yn y rhan fwyaf o'r achosion perthnasol a welwyd.

7.10 Nid oedd Paneli Troseddwyr Ieuenctid wedi cwrdd yn ystod y safon genedlaethol o 20 diwrnod yn unrhyw un o'r achosion a welwyd, sef yr un canfyddiad ag a welwyd yn yr arolygiad blaenorol.

7.11 Yr oedd oedi o ran derbyn gwybodaeth gan yr heddlu mewn perthynas â rhybuddion terfynol yn ei gwneud yn anodd, ac ar adegau'n amhosibl cyrraedd amserlenni'r safonau cenedlaethol.

7.12 Yng nghyswllt chyfeiriadau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i'w cadw dan glo ar eu dychweliad i'r gymuned, ni fu

fawr ddim newid o ran iechyd corfforol, dirywiad yng nghyswllt iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ac ychydig o welliant cyfyngedig yn unig mewn cyfeiriadau camddefnyddio sylweddau. Ar gyfer yr un plant a phobl ifanc, yr oedd cyfeiriadau ar gyfer addysg statudol ac EOTAS wedi aros yr un peth, gyda'r un ohonynt yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Gwelwyd darlun tebyg yng nghyswllt cynlluniau dysgu ac ailasesu llythrennedd. Yr oedd hyn yn cyferbynnu a'r hyn a welwyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac yn destun dedfrydau cymunedol.

Argymhelliad 13

Dylai'r Bwrdd Rheoli a rheolwr y TTI sicrhau fod anghenion llety plant a phobl ifanc yn parhau i dderbyn sylw rhagweithiol.

8.1 Yr oedd Pennaeth newydd Tai yng Nghyngor Sir Benfro wedi ymuno â'r Bwrdd Rheoli. Fe'i gwelwyd yn ychwanegiad cadarnhaol iawn ac un a oedd yn sicrhau fod anghenion llety plant a phobl ifanc cysylltiedig â'r TTI yn derbyn sylw ar lefel gorfforaethol. Y rheolwr cynllunio polisi a newid yr Adran Tai oedd yr arweinydd gweithredol, a'r bwriad oedd iddynt fynychu Fforwm Anghenion Llety Cymru Gyfan y BCI yn 2009.

8.2 Yr oedd awdit o anghenion llety cyfredol ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed wedi'i gwblhau gan y TTI. Comisiynwyd Cynllun Ymchwil ar Anghenion Tai a Chefnogaeth Pobl Ifanc gan y Bwrdd a sefydlwyd grŵp amlasiantaeth. Yr oedd y prosiect yn ystyried anghenion tai a chefnogaeth plant a phobl ifanc gan gyfeirio'n benodol at bobl ifanc digartref 16/17 oed, y rhai rhwng 16-25 y barnwyd eu bod yn agored i niwed ac 'mewn perygl' a'r rhai a oedd yn gysylltiedig â'r TTI, a'r rhai a oedd yn gadael gofal. Datblygwyd Cylch Gorchwyl gan y grŵp a chytunwyd arno gan y Bwrdd. Yr oedd Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod o Hydref 2008 i Fedi 2010 wedi'i ddatblygu.

8.3 Y gobaith oedd y byddai plentyn neu unigolyn ifanc yn ymuno â'r grŵp. Ni lwyddwyd i gyflawni hyn, ond yr oedd un yn fodlon cyfarfod â'r rheolwr cynllunio polisi a newid ar sail unigol i drafod materion a oedd yn berthnasol i'w anghenion y gellid eu defnyddio fel rhan o unrhyw drafodaethau.

8.4 Yr oedd Rheolwr y TTI hefyd wedi cwrdd â'r rheolwr cynllunio polisi Tai a newid i drafod y Cynllun Gweithredu Tai fel rhan o Nod Craidd 6 y Cynllun Sengl i Blant i sicrhau y rhoddwyd sylw i faterion y TTI.

8.5 Mewn termau ymarferol, gwelwyd datblygiad y Riverside Hostel fel datblygiad cadarnhaol. Yr oedd yn hostel gyda 28 o welyau ar gyfer pobl sengl 16+ a oedd yn ddigartref. Nid oedd yn un â mynediad agored, ac yr oedd y warden, a oedd ar ddyletswydd 24 awr y dydd, yn darparu gwasanaeth monitro ar y safle a oedd yn ymwneud mwy â materion tenantiaeth yn hytrach na chefnogaeth emosiynol uniongyrchol. Er nad oedd cyfyngiad ar yr amser y gellid

ei dreulio'n byw yn yr hostel, ar gyfartaledd yr oedd y bobl ifanc yn aros rhwng dau a thri mis.

8.6 Yn y nifer fechan o achosion a archwiliwyd fel rhan o'r ail-arolygiad hwn, yr oedd llety plant a phobl ifanc yn fwy boddhaol mewn traean o'r achosion atal (yn erbyn dim gwelliant yn yr arolygiad gwreiddiol) ac yn nhri chwarter yr achosion o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac wedi derbyn dedfryd gymunedol (yn erbyn llai na thraean) a thraean o achosion cadw dan glo (yn erbyn dim gwelliant).

8.7 Yr oedd manylion y plant a'r bobl ifanc hynny a oedd yn byw mewn llety anfoddhaol yn cael eu casglu a'i monitro'n agos, gyda'u hamser mewn llety o'r fath wedi gostwng yn sylweddol o'i gymharu â'r hyn a welwyd yn yr arolygiad blaenorol. Ni chofnodwyd fod unrhyw blant neu bobl ifanc yn byw mewn llety gwely a brecwast yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Materion heb eu datrys

8.8 Yr oedd rhai trafferthion yn parhau ynghylch argaeledd llety priodol, trefniadau maethu arbenigol penodol, i sicrhau fod modd i'r TTI gyflawni'n gyson ei gyfrifoldebau dan PACE a'r rhai a remandiwyd i lety'r awdurdod lleol. Er mai nifer bychan oedd angen y ddarpariaeth hon, yr oedd angen cael cynlluniau wrth gefn yn eu lle.

8.9 Yr oedd tystiolaeth anecdotaidd gan y staff a gyfwelwyd yn nodi fod nifer bychan o blant a phobl ifanc yn achlysurol yn byw mewn llety gwely a brecwast neu lety arall anaddas.

8.10 Cydnabuwyd y sialensiau mewn awdurdod bychan, gwledig gan fwyaf, a oedd yn wynebu gofynion sylweddol am lety. Cafwyd cynnydd sylweddol o ran gwybodaeth am faint y broblem a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Yr oedd gwir welliant yn debygol o gymryd blwyddyn arall i'w gyflawni yn y maes hwn, felly yr oedd ymrwymiad parhaus i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir yn hanfodol.

Rheolwr y TTI

Argymhelliad 6
Dylai Rheolwr y TTI sicrhau fod rhybudd ymlaen llaw ynghylch remand diogel neu dan glo posibl yn cael eu derbyn a bod cymorth mechnïaeth/pecynnau goruchwylio yn cael eu hyrwyddo'n frwd.

9.1 Mae hwn yn parhau'n fater dan sylw. Bu trafodaethau rhwng rheolwr blaenorol y TTI, swyddogion y llys ac ynadon (mewn Grŵp Defnyddwyr Llys) ynghylch yr angen i sicrhau fod y TTI yn cael ei hysbysu o achosion posibl o remand diogel neu dan glo.

9.2 Yr oedd y TTI yn sicrhau fod staff ar gael i fynychu'r llys pan fyddent yn derbyn rhybudd ymlaen llaw o achosion posibl o remand diogel neu dan glo. Yr oedd cymorth mechnïaeth/pecynnau goruchwylio'n cael eu hyrwyddo a darpariaeth yn cael ei gwneud pan fo angen. Fodd bynnag, adeg yr ail-arolygiad, bu enghreifftiau diweddar pan na dderbyniwyd hysbysiad ffurfiol ac roedd pryder penodol ynghylch materion diogelu posibl.

9.3 Yr oedd yn ymddangos fod camau anffurfiol yn cael eu cymryd, gyda galwad ffôn yn cael ei wneud gan staff diogelwch yn y llys i'r plismon o fewn y TTI.

9.4 Yr oedd protocol ar sail De Cymru yn ei le ac nid oedd TTI eraill yn y rhanbarth yn nodi pryderon tebyg.

Materion heb eu datrys

9.5 Mae angen codi'r mater hwn eto ar lefel uwch reolwyr, gan sefydlu gweithdrefnau ffurfiol, eglur ynghylch pwy sy'n gyfrifol am wneud a derbyn yr alwad hysbysu, gyda chadarnhad ysgrifenedig, megis drwy e-bost.

9.6 Yr oedd materion eraill gyda'r llys yn cynnwys presenoldeb ynadon mewn hyfforddiant ar y cyd, prydlondeb camau tor-amod a diffyg prosesau adborth ffurfiol gan dedfrydwyr.

Argymhelliad 7
Dylai Rheolwr y TTI sicrhau fod ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu'n gwella

10.1 Cwblhawyd awdit o Adroddiadau Cyn Dedfrydu gan NACRO ym mis Ionawr 2008. Yr oedd ei adroddiad yn sail i'r hyfforddiant a ddarparwyd i reolwr y TTI, UYGC a rheolwyr achosion ar 21 Chwefror a 5 Mehefin 2008. Yr oedd diwygiadau a gynigiwyd i broses a fformat yr ACD wedi'u cynnwys yn adroddiad yr awdit.

10.2 Cynhaliwyd awdit dilynol ym mis Tachwedd 2008 ac yr oedd rheolwr y TTI newydd dderbyn yr adroddiad drafft adeg yr ail-arolygiad. Yr oedd yn ymddangos fod perfformiad wedi gwella'n sylweddol neu wedi cael ei gynnal mewn nifer o feysydd allweddol, ond tynnwyd sylw hefyd at nifer bychan o bryderon a oedd yn parhau.

10.3 Yr oedd fformat yr adroddiadau wedi'i adolygu a'r templed wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfieithiad Cymraeg o bob pennawd. Yr oedd gan y TTI ddau reolwr achosion a oedd yn siarad Cymraeg ac yn gallu darparu asesiad a gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

10.4 Yr oedd proses 'borthora' drwyadl yn ei lle ac yr oedd rheolwr y TTI yn ymgymryd â sicrwydd ansawdd. Yn y ffeiliau a archwiliwyd, yr oedd yr adroddiad cychwynnol, y ddogfennaeth 'porthora' a'r adroddiad terfynol ar gael.

10.5 Archwiliwyd nifer fechan o ACD fel rhan o'r ail-arolygiad ac yr oedd y canfyddiadau'n dangos y gwnaed cynnydd sylweddol o ran y defnydd o Asset i oleuo'r adroddiad, y dadansoddiad o'r trosedd a chynnwys asesiad o fregusrwydd a gwybodaeth am ddioddefwyr. Yr oedd pob un o'r adroddiadau'n gwneud cynnig eglur ar gyfer dedfrydu. Gwelwyd gwelliant o ran bod yr adroddiadau'n wrthrychol, yn rhydd o iaith wahaniaethol a stereoteipio, yn gwahaniaethu rhwng y Tebygolrwydd o Aildroseddu (ToA) a'r Risg o Niwed (RN) ac yn rhoi sylw i anghenion amrywiaeth.

Materion heb eu datrys

10.6 Roedd angen rhagor o waith i sicrhau bod pob adroddiad yn cyrraedd y safon ofynnol ac yn ddigon cryno, a bod sylw penodol yn cael ei roi i'w cwblhau o fewn amserlenni'r safon genedlaethol.

10.7 Nid oedd proses yn ei lle i ynadon wneud sylwadau ffurfiol ar ansawdd ACD na darparu adborth ar unwaith i awduron yr adroddiadau.

Argymhelliad 8

Dylai rheolwr y TTI sicrhau y cynhelir asesiadau Onset ymhob achos atal, gan roi sylw priodol i faterion yn ymwneud â Risg o Niwed, bregusrwydd a diogelu.

11.1 Yr oedd hwn yn faes lle gwelwyd cynnydd sylweddol iawn. Sefydlwyd y PCCI (YISP) yn 2006, ond ni fu'n gwbl weithredol hyd hydref 2007, ac adolygwyd a diwygiwyd proses y panel ym mis Chwefror 2008. Er bod presenoldeb yn y panel yn gyffredinol dda, yr oedd presenoldeb Gofal Plant yn anghyson.

11.2 Yr oedd y tîm erbyn hyn yn cael ei reoli gan UYGC ac yr oedd ganddo brosesau cyfeirio a sgrinio clir yn seiliedig ar set o feini prawf a graddfeydd blaenoriaeth. Cwblhawyd ffurflen gyfeirio a sgrinio ar bob un o'r achosion atal a welwyd ac yr oedd yr wybodaeth wedi'i gwirio'n briodol. Lle'r oedd yn briodol cyfeirio ymlaen i wasanaethau eraill, gwnaed hynny'n brydlon ac yr oedd yn cael ei gofnodi. Yr oedd gwaith effeithiol yn cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned.

11.3 Yr oedd staff atal wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio Onset. Ar y dechrau, yr oedd gwybodaeth am gyfeirio'n gyfyngedig ac yn achosi oedi o ran cwblhau'n amserol. Yr oedd gwaith gydag aelodau'r PCCI wedi golygu fod llawer mwy o wybodaeth fanwl ar ddogfennau cyfeirio'n cael eu rhannu.

11.4 Yr oedd gan bob un o'r achosion atal a welwyd fel rhan o'r ail-arolygiad hwn asesiad Onset ac yr oedd y cyfan wedi'u cwblhau i safon dda neu dda iawn. Yr oedd y rhan fwyaf wedi'u hadolygu'n briodol. Yr oedd materion amrywiaeth wedi'u nodi yn yr holl achosion a welwyd a rhoddwyd sylw llawn i'r dulliau mwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc penodol.

11.5 Yr oedd UYGC (atal) yn samplo asesiadau Onset yn ystod cyfnodau goruchwylio misol gyda'r aelodau perthnasol o'r tîm. Cofnodwyd hyn ar System Gwybodaeth Rheoli Careworks. Yr oedd prydlondeb cwblhau o fewn yr amserlen o 20 diwrnod a gytunwyd yn lleol hefyd yn cael ei fonitro'n ffurfiol.

11.6 Yr oedd gan glerc mewnbynnu data'r TTI fynediad at SGR Carefirst ar gyfer gwasanaethau Gofal Plant ac yn gallu casglu data ynghylch plant a phobl ifanc fel rhan o'r broses gychwynnol. Yr oedd y timau asesu Gofal Plant, y TTI a'r plismon o'r Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi cytuno'n ddiweddar ar broses newydd i wella cywirdeb a phrydlondeb gwybodaeth ac yr oedd yn cael ei rhoi ar waith.

11.7 Yr oedd yr holl achosion a welwyd yn dangos fod y cofnodion Gofal Plant wedi'u gwirio, gyda statws y plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i gofnodi'n glir. Gwnaed asesiadau RN yn gywir ym mhob achos, gan gymryd y camau priodol. Gwnaed nifer o gyfeiriadau at Ofal Plant, er na fu'r ymateb yn foddhaol ym mhob achos.

11.8 Yr oedd cynlluniau cefnogi unigol wedi'u paratoi ar gyfer yr holl blant a'r bobl ifanc ac yr oedd y rhain i gyd yn rhoi sylw i'r RN i eraill a'r rhan fwyaf ohonynt i aros yn ddiogel.

11.9 Yr oedd yr holl staff, drwy oruchwyliaeth a hyfforddiant parhaus gydag aelodau eraill ar draws y gwasanaethau Gofal Plant yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i sicrhau fod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu diogelu. Cryfhawyd cysylltiadau â thîm asesu Gofal Plant i sicrhau fod sianelau cyfathrebu'n parhau'n agored. Yr oedd yr UYGC (atal) yn dod o gefndir Gofal Plant ac yn darparu cefnogaeth/monitro ynghylch materion diogelu a RN.

Mater heb ei ddatrys

11.10 Cyflawnwyd yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, cyfeiriwyd nifer fechan o achosion i reolwr y TTI a Phennaeth Gwasanaeth Comisiynu Gofal Plant fel 'achosion o bryder' ac yr oedd y rhain yn ymwneud â diffyg ymateb amserol a phriodol gan Ofal Plant. Yr oeddynt bellach yn ymateb i'r cyfeiriadau hyn.

Argymhelliad 9
Dylai rheolwr y TTI sicrhau fod ansawdd asesiadau Asset, asesiadau Risg o Niwed, gwaith cynllunio ymyriadau ac adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau cenedlaethol.

12.1 Yn yr arolygiad blaenorol, ni ystyriwyd fod y TTI yn cyflawni ei fusnes craidd i safon foddhaol ac yr oedd yr argymhelliad hwn yn cwmpasu llawer o'r meysydd o bryder.

12.2 Canfu'r ail-arolygiad sefyllfa well o lawer. Gwnaed sylwadau eisoes yn adran 11 ynghylch y sefyllfa o ran asesiadau, asesiadau RN, cynllunio ymyriadau ac adolygiadau yng nghyswllt achosion atal.

12.3 Yr oedd y TTI yn cymryd rhan mewn rhaglen ar draws Dyfed-Powys i wella Asset, a oedd yn cynnwys datblygu rhaglen fewnol ar gyfer sicrhau ansawdd a oedd yn benodol i bob TTI, Diwrnod Hyfforddi 'pencampwyr' a hyfforddiant RND i'w ddarparu gan ddarparwr hyfforddiant allanol ar draws Dyfed-Powys. Yr oedd y rhaglen i'w chwblhau erbyn diwedd Ebrill 2009. Yr oedd hyfforddiant pellach ar asesu hefyd wedi'i gynllunio ar gyfer y TTI yn ystod Chwefror 2009.

12.4 Yr oedd yr UYGC ar gyfer gorchmynion statudol yn sicrhau ansawdd sampl o asesiadau gyda rheolwyr achosion fel rhan o'u goruchwyliaeth. Yn ogystal, yr oedd perfformiad yn cael ei fonitro ar draws y TTI yn fisol, gydag adroddiadau'n cael eu gwneud i reolwyr achosion penodol a'u goruchwylwyr, rheolwr y TTI, Pennaeth Gwasanaeth Comisiynu Gofal Plant a Bwrdd Rheoli'r TTI.

12.5 Yr oedd asesiadau Asset cychwynnol ar yr holl achosion perthnasol a archwiliwyd fel rhan o'r ail-arolygiad. Yr oedd ansawdd asesiadau Asset mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ac yn destun gorchmynion cymunedol yn llawer gwell, gyda thros ddwy ran o dair o ansawdd digonol (o'i gymharu â llai na hanner yn yr arolygiad blaenorol). Ar gyfer achosion cadw dan glo, gwelwyd gwelliant cyffelyb, gyda chynnydd o un rhan o bump i dair rhan o bump.

12.6 Gwelwyd gwelliannau yn y cyswllt â Gofal Plant ac addysg i oleuo'r Asset, yn y cofnodi ar hil ac ethnigrwydd ac mewn materion amrywiaeth, ffactorau a allai fod yn wahaniaethol/anfanteisiol, ac unrhyw anghenion unigol eraill, a oedd yn cael eu hasesu ar gam cynnar. Yr oedd canfod ffactorau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn destun dedfrydau cymunedol wedi cynyddu, yn ogystal â'r defnydd o'r holiadur *What Do You Think?*

12.7 Yr oedd pob asesiad RND wedi'u llofnodi gan y rheolwr priodol.

12.8 Yr oedd cynlluniau ymyrryd cychwynnol yn cael eu paratoi ar bob achos perthnasol o fewn amserlen y safon genedlaethol, a oedd yn welliant sylweddol. Yr oedd y cynlluniau hefyd yn dangos newidiadau cadarnhaol yn y cynnwys o brosesau adferol i ddioddefwyr, yn amlinellu pwy oedd i ddarparu'r ymyriadau, cydweddu â chynlluniau asiantaethau eraill a bod ag amcanion yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Materion heb eu datrys

12.9 Yr oedd cwblhau asesiadau Asset yn brydlon ar yr achosion nad oeddent yn arwain at ddedfryd dan glo a welwyd fel rhan o'r ail-adolygiad, yn unol â safonau cenedlaethol yn dangos dirywiad ers yr arolygiad blaenorol.

12.10 Yr oedd yr archwiliad o asesiadau Asset a gwblhawyd yn parhau i godi pryderon ynghylch asesu RN a RND. Yr oedd cywirdeb y sgrinio'n ffactor mewn nifer fechan o achosion ac yr oedd rheolwyr

achosion yn tueddu i beidio ystyried natur y trosedd yn ddigonol wrth asesu RND. Yr oedd cynlluniau rheoli risg yn absennol mewn nifer o achosion lle yr oeddynt yn angenrheidiol ac nid oedd y rhai a welwyd yn cyrraedd y safon ofynnol.

12.11 Er bod asesiadau Asset yn cael eu cwblhau'n gyson, edrychid arnynt fel 'ffurflenni i'w llenwi' ac nid fel arf gwaith i gynorthwyo dyfarniad proffesiynol. Dyma'r cam nesaf yn y rhaglen wella.

12.12 Yr oedd cynlluniau ymyrryd cychwynnol yn parhau i fethu â dilyn y drefn gywir. Yr oedd llai na dwy ran o dair o'r cynlluniau a'r contractau gorchmynion cyfeirio hyn yn rhoi sylw digonol i faterion amrywiaeth. Nid oedd hanner yr achosion perthnasol wedi'u hadolygu, a dim ond un o'r rhain oedd o fewn amserlenni'r safon genedlaethol. Nid oedd asesiadau RN wedi'u hadolygu chwaith.

Argymhelliad 11

Dylai rheolwr y TTI sicrhau bod canllawiau ynghylch polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer da ar gael i'r holl staff.

13.1 Cynhaliwyd nifer o gynlluniau i wella gwybodaeth staff o bolisïau a gweithdrefnau a dywedodd tri chwarter o'r staff a gyfwelwyd fod ganddynt ddealltwriaeth dda.

13.2 Yr oedd pecyn cynefino a chynllun penodol i'r TTI ar gyfer pob aelod newydd o'r tîm wedi'u datblygu a'u peilota gyda'r myfyriwr gwaith cymdeithasol. Yr oedd y rhain yn cysylltu â threfn gynefino Gofal Cymdeithasol a Thai ar gyfer holl staff newydd yr awdurdod lleol.

13.3 Yr oedd sawl gweithdrefn newydd e.e. prosesau dyrannu a chau achosion, wedi'u cyflwyno a'u dosbarthu i staff.

Mater heb ei ddatrys

13.4 Nid oeddid eto wedi cwblhau diweddaru'r Llawlyfr Polisïau a Gweithdrefnau yn ymwneud â'r TTI. Cytunwyd y byddai'r darn hwn o waith yn cael ei wneud yn allanol ac yr oedd NACRO (Cymru) wedi cytuno i ymgymryd â'r dasg hon o fewn amserlen benodol.

Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol

Ardal

Yr oedd TTI Sir Benfro yn TTI unigol ac yn ymestyn dros ardal Awdurdod Lleol Cyngor Sir Benfro.

Poblogaeth yr ardal oedd 114,131 yn ôl Cyfrifiad 2001, ac roedd 10.6% o'r boblogaeth hon rhwng deg a 17 oed. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 10.4%. Yr oedd y boblogaeth yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y tymor gwyliau pan fyddai nifer fawr o ymwelwyr yn ymweld â'r ardal. Yr oedd ychydig dan hanner cyfanswm y boblogaeth yn byw yn y pum prif dref, sef Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro.

Yr oedd poblogaeth Sir Benfro yn wyn gan fwyaf, sef 99.1%. Roedd y boblogaeth a oedd o gefndir du neu gefndir lleiafrif ethnig, 0.9%, yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 8.7%. Saesneg oedd yr iaith a siaredid bennaf yn Sir Benfro, gyda'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg yn byw yng Ngogledd y sir. Nodwyd yng nghyfrifiad 2001 fod 29% o drigolion Sir Benfro'n siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 20.5%. Yr oedd yn Sir Benfro gymuned fawr o deithwyr a oedd wedi ymsefydlu yno, ac a oedd yn cynnwys oddeutu 120 o blant a phobl ifanc rhwng tair ac 17 oed.

Yr oedd rhai ardaloedd o Sir Benfro yn cynnwys cyfraddau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, sail gyflogaeth isel a chyfrannau sylweddol o rieni sengl. Yr oedd ystadegau'n ymwneud â phrydau ysgol am ddim, cymorth incwm a chyfraddau beichiogrwydd ar gyfer merched dan 16 yn gyffredinol dan gyfartaledd Cymru.

Yr oedd lefelau troseddau a gofnodwyd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng deg a 17 mlwydd oed ar draws yr ardal, sef 49.1% y 1,000, yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr, sef 54.

TTI

Yr oedd ffiniau'r TTI yn cyd-ffinio â rhai swyddfa Sir Benfro o Ardal Prawf Dyfed-Powys, rhanbarth Sir Benfro o Ardal Heddlu Dyfed Powys a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro.

Roedd y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 yn dangos fod gan y TTI 30 o staff (roedd nifer ohonynt yn rhan-amser) a 23 o wirfoddolwyr. Menywod oedd 75% o'r staff ac nid oedd yr un aelod yn dod o gefndir du neu o gefndir lleiafrif ethnig. Yr oedd gan y TTI bedwar aelod o staff a gwirfoddolwyr a oedd yn siarad Cymraeg.

Lleolid gwaith y TTI mewn un brif swyddfa yn Noc Penfro. Yr oedd un llys ieuenctid yn Hwlffordd, ac yr oedd ISSP ar gael ar draws y sir.

Data am berfformiad y BCI

Yng nghrynodeb y BCI o berfformiad cyffredinol y TTI, ar gael adeg yr ail-arolygiad ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2008, rhoddwyd sgôr o 3 i Sir Benfro ar raddfa lle mai 5 oedd y sgôr uchaf. Yr oedd hyn yn is na'r perfformiad cenedlaethol a rhanbarthol.

Atodiad 2: Data'r Arolygiad

Gwnaethpwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Rhagfyr 2008.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- tystiolaeth ymlaen llaw
- archwilio data perfformiad ac asesiadau'r BCI
- archwilio'r ymarfer mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall, fel a ganlyn:
  - pum ffeil atal
  - pum rhybudd terfynol
  - pedair cosb haen gyntaf (gorchmynion cyfeirio, gorchmynion gwneud iawn)
  - pum dedfryd gymunedol
  - chwe dedfryd cadw dan glo
- cyfarfodydd â staff, rheolwyr a phartneriaid.






Achosion PPO
16%
84%
PP
Dim PPO


Risg o Niwed Uchel/Uchel lawn
16
84
RN Uchel/Uchel lawn
RN ddim yn uchel


Sampl achosion yn ôl trefn
20%
20%
16%
24%
20%
Rhybudd Terfynol
Haen Gyntaf
Gorchymyn Cymunedol
Cadw dan Glo
Atal

Atodiad 3: Trefniadau cyd-arolygiad

Dechreuodd rhaglen cyd-arolygu'r TTI ym mis Medi 2003 a dyma'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith y TTIau. Mae wedi cael ei rhoi ar waith dros bedwar cyfnod, gan arolygu pob TTI yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd.

Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r cod ymarfer

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf EM, ac fe'i ariennir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein pwrpas yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn ag effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc gyda'r nod o leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn dan adain y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- adrodd ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl y galw
- cyfrannu at well perfformiad gan y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at bolisi cadarn a darparu gwasanaethau effeithiol, yn enwedig o ran amddiffyn y cyhoedd, drwy roi cyngor a lledaenu arferion da, ar sail canfyddiadau arolygon, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo'n frwd gydraddoldeb rhwng yr hiliau a materion ehangach sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, yn enwedig yn y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig drwy gydweithio ag arolygiaethau eraill.

Nod Arolygiaeth Prawf EM yw cyflawni ei phwrpas a gwireddu egwyddorion y Llywodraeth o ran arolygu'r sector cyhoeddus drwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, deg a chwrtais
- adrodd ynglŷn â chanfyddiadau arolygiadau a'u cyhoeddi ynghyd â chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella a hynny'n brydlon ac o safon dda.
- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng yr hiliau a sicrhau sylw ehangach i amrywiaeth yn holl agweddau ein gwaith, gan gynnwys o fewn ein harferion cyflogi a phrosesau ein trefniadaeth ni'n hunain
- ar gyfer y sefydliadau yr ydym yn arolygu eu gwaith, ceisio sicrhau bod cyn lleied o waith ychwanegol ag y bo modd yn deillio o'r broses arolygu.

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cynnig sylwadau am arolygiad, am adroddiad neu am unrhyw fater arall o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf EM
2il Lawr, Ashley House
2 Monck Street
Llundain SW1P 2BQ

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation